# Pirfenidone ar gyfer trin ffibrosis pwlmonaidd idiopathig yr ysgyfaint

6 Chwefror 2018

Mae pirfenidone (Esbriet) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â ffibrosis pwlmonaidd idiopathig yr ysgyfaint os yw'r canlynol yn gymwys:

- mae eu capasiti hanfodol gwthiedig (FVC; prawf o weithrediad eich ysgyfaint) rhwng 50% ac 80% o'r hyn a ddisgwylir ar eu cyfer
- rhoddir y gorau i'r driniaeth os bydd yr afiechyd yn gwaethygu (hynny yw, os bydd eu FVC yn gostwng cyfanswm o 10% neu fwy mewn 12 mis).

Os nad ydych yn gymwys i gael pirfenidone, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, 03000 030 555
- Pulmonary Fibrosis Trust, 01543 442 191
- Action for Pulmonary Fibrosis, 01543 442 152

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2591-9

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights